

## **Y Cwricwlwm i Gymru – Rhoi eglurder ynghylch y maes Dyniaethau mewn perthynas â hanes Cymru a'r byd**

### **Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**

Eich enw: Iona Davies

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

ebost/rhif ffôn: [iona@ucac.cymru](mailto:iona@ucac.cymru)

Eich cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **4 Ionawr 2023** i:

Cangen y Dyniaethau a'r Celfyddydau Mynegiannol  
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu  
Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: [cwricwlwmigymru@llyw.cymru](mailto:cwricwlwmigymru@llyw.cymru)

**Math o ymatebydd (dewiswch un o'r canlynol)**

Plentyn neu berson ifanc	<input type="checkbox"/>	Cyflogwr/cynrychiolydd busnes	<input type="checkbox"/>
Rhiant/gofalwr	<input type="checkbox"/>	Corff proffesiynol/grŵp buddiant	✓
Llywodraethwr ysgol neu aelod o bwyllgor rheoli ysgol	<input type="checkbox"/>	Y sector gwirfoddol (grŵp cymunedol, gwirfoddolwr, grŵp hunangymorth, menter gymdeithasol neu gydweithredol, sefydliad crefyddol, sefydliad nid er elw)	<input type="checkbox"/>
Ymarferydd ysgol brif ffrwd (pennaeth, athro, cynorthwyydd addysgu)	<input type="checkbox"/>	Consortiwm rhanbarthol	<input type="checkbox"/>
Darparwr addysg heblaw yn yr ysgol (staff uned cyfeirio disgyblion, staff ysgolion annibynnol, darparwr arall)	<input type="checkbox"/>	Awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>
Addysg uwch (gan gynnwys prifysgolion/sefydliadau academaidd)	<input type="checkbox"/>	Addysg bellach	<input type="checkbox"/>
Gwleidydd (aelod o'r Senedd, cynghorydd sir, aelod o Senedd y DU)	<input type="checkbox"/>	Grŵp arall sy'n ymateb nad yw wedi'i restru uchod	<input type="checkbox"/>
Lobiwr	<input type="checkbox"/>	Mae'n well gen i beidio â dweud	<input type="checkbox"/>

A ydych yn ymateb fel unigolyn ynteu ar ran ysgol, lleoliad neu sefydliad?

<input type="checkbox"/>	Fel unigolyn
✓	Ar ran sefydliad

**Cwestiwn 1** – Ydy ychwanegu ‘hanes Cymru a’r byd’ yn y datganiad o’r hyn sy’n bwysig a’r canllawiau cysylltiedig yn egluro’n well bwysigrwydd addysgu hanes Cymru fel rhan o addysgu treftadaeth?

<b>Ydy</b>	✓	<b>Nac ydy</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
------------	---	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

**Sylwadau ategol**

Mae ychwanegu ‘hanes Cymru a’r byd’ yn nodi’n glir bod angen rhoi sylw penodol i hanes Cymru o fewn y cwricwlwm newydd. Mae hyn yn golygu y bydd pob ysgol yng Nghymru yn gwybod beth yw ei chyfrifoldeb a bydd hefyd yn sicrhau atebolrwydd. Er y byddai llawer yn dehongli ‘hunaniaeth, treftadaeth a chynefin’ fel hanes Cymru, eto o beidio â nodi ‘hanes Cymru’ yn benodol, mae perygl na fyddai pawb yn gwerthfawrogi’r pwysigrwydd o addysgu hanes Cymru.

Y gofid, fodd bynnag, yw y gellid dehongli ‘hanes Cymru a’r byd’ yn unig fel ‘cysylltiad Cymru â gweddill y byd’. Mae angen sicrhau canllawiau pellach ac adnoddau priodol er mwyn sicrhau bod y sylw dyledus yn cael ei roi i hanes Cymru.

**Cwestiwn 2** – Mae’r datganiadau o’r hyn sy’n bwysig yn elfennau allweddol o strwythurau’r cwricwlwm ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad (Maes). Ydy’r cynnig o ychwanegu ‘hanes Cymru a’r byd’ at ddatganiad y Maes Dyniaethau yn glir ac yn hygyrch, ac yn darparu dealltwriaeth o’r cwmpas ar gyfer datblygu’r cwricwlwm?

<b>Ydy</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Nac ydy</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	✓
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	---

**Sylwadau ategol**

Mae’r cynnig o ychwanegu ‘hanes Cymru a’r byd’ yn sicrhau gwell eglurder ac yn pwysleisio pwysigrwydd addysgu hanes Cymru. Nid yw’r geiriau ar eu pennau eu hunain yn manylu ar y cwmpas o ran datblygu’r cwricwlwm. Er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn deall y cwmpas ar gyfer datblygu’r cwricwlwm, credaf y byddai angen cynnwys mwy o fanylion, darparu canllawiau pellach a sicrhau adnoddau a hyfforddiant digonol.

**Cwestiwn 3** – Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wedi eu mireinio ar ôl ystyried materion fel rhan o hynt deddfwriaeth gysylltiol gan y Senedd yn 2021. Ydy'r newidiadau arfaethedig i'r Maes Dyniaethau yn darparu digon o eglurder a chymorth i ysgolion a lleoliadau wrth iddynt drefnu'r cwricwlwm?

<b>Ydy</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Nac ydy</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	-------------------------------------

### Sylwadau ategol

Yn sicr, mae'r newidiadau yn nodi'n glir bod yn rhaid cynnwys hanes Cymru o fewn y cwricwlwm newydd, ond nid yw'n nodi hyd a lled a dyfnder yr addysgu. Gyda'r geiriad fel ag y mae, mae'n ddigon posibl y bydd faint o hanes Cymru a addysgir yn amrywio'n fawr o un ysgol i'r llall. Byddai rhoi mwy o ganllawiau yn sicrhau mwy o gysondeb. Dylid nodi corff cyffredin o wybodaeth sylfaenol y dylai ysgolion ei gynnwys yn eu cynlluniau gwaith.

Er y croesewir y diwygiad hwn, eto i gyd mae'n bwysig bod yn fwy penodol. Mae'n hollbwysig rhoi arweiniad i athrawon, er mwyn sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i hanes Cymru a bod pob dysgwr yng Nghymru yn cael yr arlwy priodol a digonol o hanes Cymru.

**Cwestiwn 4** – I gefnogi ysgolion i ymgysylltu â'r newidiadau arfaethedig i'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig a'r canllawiau cysylltiedig, byddwn hefyd yn comisiynu datblygu llinell amser drosfwaol o hanes Cymru. Sut gallai llinell amser o'r fath ac unrhyw adnoddau cysylltiedig gefnogi ysgolion i ymgysylltu â'r gofynion mandadol arfaethedig a amlygir yn yr ymgynghoriad hwn?

### Sylwadau ategol

Byddai llinell amser o'r fath yn gymorth i sicrhau cyd-destun i'r gwersi fydd yn cael eu darparu. Bydd hefyd yn adnodd gweledol defnyddiol i ysgolion. Bydd yn rhaid rhoi sylw gofalus i'r hyn fydd wedi ei gynnwys ar y llinell amser hon.

Croesewir unrhyw adnoddau o safon a fydd yn cael eu darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Mae'n bwysig cydweithio gydag athrawon, haneswyr, academyddion, darlithwyr ar gyrsiau hyfforddi athrawon a rhanddeiliaid eraill, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn un werthfawr ac yn un a fydd o fudd arbennig i ddisgyblion Cymru.

**Cwestiwn 5** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r diwygiadau arfaethedig i'r Maes Dyniaethau yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

## Sylwadau ategol

Gallai'r diwygiadau arfaethedig newydd beri bod pobl yn ymagweddu'n wahanol tuag at yr iaith. Er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg i hanes a hunaniaeth Cymru, mae'n bwysig bod y pwnc yn cael ei addysgu'n dda ac mewn ffordd ddeallus. Dylid sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru yn gweld yr iaith o fewn cyd-destun hanesyddol, gan fod yn ymwybodol o hynt a helynt yr iaith ar hyd y canrifoedd. Dylid sicrhau bod adnoddau priodol a safonol ar gael, ac mae'n bwysig bod y wybodaeth bwrpasol ar y llinell amser arfaethedig. Yn ogystal, bydd angen sicrhau hyfforddiant pwrpasol i athrawon a chyfleoedd digonol iddynt baratoi a chynllunio ar gyfer cyflwyno'r pwnc.

**Cwestiwn 6** – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y diwygiadau arfaethedig i'r Maes Dyniaethau gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Sylwadau ategol

Mae'n hollbwysig bod y pwnc yn cael ei addysgu'n dda a bod athrawon yn llwyr ymwybodol o'r hyn y disgwylir iddynt ei ddysgu (cynnwys craidd wedi ei nodi). Dylid sicrhau bod adnoddau pwrpasol o safon uchel ar gael yn y ddwy iaith ar gyfer addysgu'r cynnwys craidd hwn.

**Cwestiwn 7** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch ddefnyddio'r blwch isod i wneud hynny:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: